



1907-2007

Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Arfarniad o'r cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith

Hydref 2007



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALLau);
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ▲ hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ▲ AALLau;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd;
- ▲ dysgu troseddwy; ac
- ▲ elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2007: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen
---------	---------

Cyflwyniad	1
Cefndir	2
Prif ganfyddiadau	3
Argymhellion	5
Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni yn y cwrs byr Cymraeg ail iaith?	6
Faint o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr Cymraeg ail iaith?	8
Faint o amser sydd ar gyfer addysgu'r cwrs byr Cymraeg ail iaith?	12
Beth yw'r maes llafur arholi ar gyfer y cwrs byr Cymraeg ail iaith?	14
Casgliad	15
Atodiad: Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw	

Cyflwyniad

- 1 Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i gais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyngor ar y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith. Yn benodol, gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn roi cyngor ar oblygiadau'r cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yng nghyfran y disgyblion sy'n cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs byr TGAU yng nghyfnod allweddol 4 yn hytrach na'r cwrs TGAU llawn.
- 2 Fel rhan o'r arolwg hwn, ymwelodd arolygwyr ag 17 o ysgolion uwchradd mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru yn ystod tymor yr hydref 2006. Mae'r ysgolion y gwnaethom ymweld â nhw wedi'u rhestru yn yr atodiad. Yn ystod yr ymweliadau, fe wnaethom:
 - arsylwi gwersi'r cwrs byr Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4;
 - archwilio samplau o waith ysgrifenedig disgyblion; a
 - chyfweld â disgyblion, penaethiaid adrannau Cymraeg ac aelodau o uwch dimau rheoli.

Cefndir

- 3 Mae Iaith Pawb (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog) yn gosod y targed canlynol:

'erbyn 2011, bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu pum pwynt canran o'r ffigur sy'n codi o gyfrifiad 2001'
(Iaith Pawb, tudalen 15)
- 4 Mae Iaith Pawb hefyd yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r targed uchod:

'y dylai awdurdodau addysg lleol ac ysgolion ystyried ffyrdd o wella safonau mewn Cymraeg ail iaith, gydag arweiniad clir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'
(Iaith Pawb, tudalen 85)
- 5 Mae'n ofyniad statudol bod pob disgybl yn cael Cymraeg wedi'i haddysgu iddynt ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith¹. Mae dewis o ddau gwrs TGAU Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4, sef y cwrs TGAU byr a'r cwrs llawn. Mae'r cwrs byr gyfwerth â hanner cymhwyster TGAU llawn. Caiff y naill gwrs a'r llall eu hasesu ar ddwy haen, yr haenau 'uwch' ac 'is'. Ar yr haen uwch, gall disgyblion gael graddau A* i D ac, ar yr haen is, gall disgyblion gael graddau C i G yn unig. Gellir cofrestru disgyblion sy'n dilyn y naill gwrs neu'r llall ar gyfer un o'r ddwy haen. Nid yw tystysgrifau TGAU yn nodi a ddyfarnwyd y radd o ganlyniad i ddilyn y cwrs TGAU byr neu llawn.
- 6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi CBAC i gynnal peilot o fanylebau newydd TGAU ar gyfer y cyrsiau Cymraeg ail iaith byr a llawn yng nghyfnod allweddol 4 rhwng mis Medi 2006 a mis Awst 2009.

¹ ac eithrio disgyblion â datganiadau AAA nad yw'n ofynnol iddynt astudio Cymraeg

Prif ganfyddiadau

- 7 Dim ond nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU byr Cymraeg ail iaith sy'n gwneud cynnydd da tuag at ddod yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae canran y disgyblion sy'n cael graddau A* - C ar y cwrs byr wedi cynyddu i 47% yn 2006. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau hyn yn cymharu'n wael â'r cwrs llawn, lle cafodd 69% o ddisgyblion raddau A* - C yn 2006. Prin yw'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr sy'n dewis astudio Cymraeg ôl-16.
- 8 Mae'r rhesymau dros dangyflawni disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr fel a ganlyn:
- caiff gormod o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr eu cofrestru ar gyfer yr arholiad haen is er y gallant ennill graddau uwch. Dim ond un o bob pum disgybl sy'n dilyn y cwrs byr sy'n sefyll arholiad haen uwch, o'i gymharu â thua hanner y rheiny sy'n dilyn y cwrs llawn;
 - mae'r amser a ddyrennir i addysgu'r cwrs byr yn aml yn llai na'r amser a argymhellir gan y bwrdd arholi. Dim ond 15% o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolwg hwn a ddyrannodd amser yn unol â'r fanyleb arholi, sef dwy awr a hanner bob pythefnos. Mewn rhai ysgolion, dyrennir cyn lleied ag awr bob pythefnos;
 - yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr glywed ac ymarfer defnyddio'r iaith y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol; ac
 - mewn gormod o ysgolion, caiff y cwrs byr ei addysgu gan athrawon nad ydynt yn arbenigol nad oes ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.
- 9 Yn awdurdodau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, lle siaredir Cymraeg yn bennaf, mae mwyafrif helaeth y disgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn dilyn y cwrs llawn. Mewn mannau eraill, mae nifer fach o ysgolion sy'n gwasanaethu cymunedau lle siaredir Saesneg yn bennaf hefyd yn cyflwyno'r cwrs llawn i bob disgybl. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn gyffredinol yn cyflawni'n dda mewn Cymraeg ail iaith.
- 10 Fodd bynnag, rhwng 2004 a 2006 yn y rhan fwyaf o weddill Cymru, bu gostyngiad sylweddol yng nghyfran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs llawn a chynnydd cyfatebol yn y rheiny a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr. Yn 2006, am y tro cyntaf, roedd cyfran yr ymgeiswyr ar gyfer y cwrs byr yng Nghymru yn uwch na'r gyfran ar gyfer y cwrs llawn.
- 11 Mewn llawer o ysgolion, yn enwedig yn ne ddwyrain Cymru, mae'r gostyngiad yng nghyfran y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn rhwng 2004 a 2006 wedi bod yn amlwg iawn. Mae'r prif resymau dros y duedd hon yn yr ysgolion hyn fel a ganlyn:
- ni chaiff disgyblion eu cynghori i ddilyn y cwrs (byr neu llawn) a fydd yn eu helpu i gyflawni eu potensial. Yn benodol, nid oes digon o gymorth ar gyfer disgyblion i ddewis y cwrs llawn;

- er bod gan y rhan fwyaf o'r disgyblion a gafodd eu cyfweld agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu'r Gymraeg a'u bod yn cydnabod gwerth parhau i wneud hynny yng nghyfnod allweddol 4, mae'r dewisiadau pwnc yng nghyfnod allweddol wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n golygu bod y cwrs TGAU llawn Cymraeg ail iaith yn cystadlu â dewisiadau pwnc poblogaidd eraill; ac
- mewn rhai o'r ysgolion, nid yw'r cwrs llawn ar gael i ddisgyblion ei astudio, yn aml oherwydd nad oes gan yr ysgol ddigon o athrawon Cymraeg ail iaith arbenigol.

12 Mae gan y meysydd llafur TGAU Cymraeg ail iaith newydd y potensial i wneud dysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 yn fwy deniadol i ddisgyblion.

Argymhellion

13 Er mwyn gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ystyried dod â'r cwrs TGAU byr i ben yn raddol pan fydd cynhwysedd staff ac ansawdd yr addysgu yn ddigon da i gynnal y broses o gyflwyno'r cwrs TGAU llawn i niferoedd cynyddol o ddisgyblion; a

A2 chynyddu nifer yr athrawon arbenigol Cymraeg ail iaith i fodloni'r galw.

Dylai awdurdodau addysg lleol:

A3 nodi a chefnogi'r ysgolion nad ydynt yn dyrannu digon o amser i Gymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4; a

A4 chynnwys targedau yn eu Cynlluniau Addysg Gymraeg i gynyddu cyfran y disgyblion Cymraeg ail iaith sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiad TGAU ac ar gyfer yr arholiadau haen uwch.

Dylai ysgolion:

A5 adolygu eu polisi ar gyfer cofrestru disgyblion ar gyfer arholiadau haen uwch mewn Cymraeg ail iaith;


A6 sicrhau bod digon o amser yn cael ei ddyrannu i'w holl gyrsiau Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4; a

A7 chynnig ystod o gyfleoedd i ddisgyblion glywed ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i wersi Cymraeg ffurfiol.


Pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni yn y cwrs byr Cymraeg ail iaith?

- 14 Mae'r siartiau canlynol yn dangos y canlyniadau cenedlaethol ar gyfer y cwrs byr a'r cwrs llawn Cymraeg ail iaith rhwng 2004 a 2006:

Siart 1: Canrannau'r disgyblion a enillodd graddau A* - C yn arholiad y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith rhwng 2004 a 2006



Siart 2: Canrannau'r disgyblion a enillodd graddau A* - C yn arholiad y cwrs llawn TGAU Cymraeg ail iaith rhwng 2004 a 2006



- 15 Mae canran y disgyblion a enillodd graddau uwch A* ac A yn y cwrs byr (tua 7%) yn llawer is na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y cwrs llawn (tua 25%).
- 16 Fe wnaeth canran y disgyblion ar y cwrs byr a enillodd raddau A* i C dros y tair blynedd hyn gynyddu o 37% yn 2004 i bron i 47% yn 2006. Mae'r cynnydd hwn yn debygol o fod oherwydd bod disgyblion sy'n gallu ennill gradd uchel yn y cwrs llawn

yn cael eu cofrestru ar gyfer y cwrs byr, ac o'r herwydd yn gwella canlyniadau'r cwrs byr. Er hynny, mae'r canlyniad ar gyfer y cwrs byr yn parhau i fod yn llawer is nag ar gyfer y cwrs llawn, sef 69% yn ennill graddau A* i C yn 2006.

- 17 Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion fel rhan o'r arolwg hwn, fe wnaethom arsylwi nifer fach o wersi'r cwrs byr. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gweithio'n gydwybodol ac yn ymroi yn dda i weithgareddau dysgu. Maent yn dysgu ac yn ymarfer defnyddio geirfa a phatrymau brawddeg newydd ac yn gwneud cynnydd da yn ystod y gwersi. Mae rhai disgyblion yn gwneud cynnydd da ond nid yw'r rhan fwyaf yn gwneud digon o gynnydd dros gyfnod i ddod yn rhugl yn y Gymraeg. Dim ond nifer fach o ddisgyblion sy'n gallu cynnal sgwrs a chyflwyno gwybodaeth bersonol yn eglur. Nid yw llawer o ddisgyblion yn cofio nac yn adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwersi blaenorol. Weithiau, mae hyn oherwydd nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd mewn gwersi i ymarfer defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Ar adegau eraill, ni chaiff patrymau iaith newydd eu hatgyfnerthu ddigon gan adolygu parhaus pan gânt eu cyflwyno. Mae hyn yn effeithio ar allu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn parau neu mewn grwpiau bach. Yn y naill achos a'r llall, mae dyrannu amser cyfyngedig ar gyfer Cymraeg ail iaith yn cyfrannu'n sylweddol at dangyflawni ymhlith disgyblion.
- 18 Cefnogir yr arsylwadau hyn gan ganfyddiadau arolygu ysgolion. Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn dda neu'n well mewn ychydig dros 40% o'r gwersi a arsylwyd yn ystod arolygiadau o ysgolion uwchradd yn 2005-2006². Mae hyn yn gadael bron i 60% o'r gwersi lle ceir diffygion yng nghyflawniadau disgyblion. At ei gilydd, mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn is na mewn unrhyw bwnc arall. Mae'r patrwm wedi bod yn debyg dros sawl blwyddyn.
- 19 Prin yw'r disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr sy'n dewis parhau i astudio Cymraeg fel ail iaith yn y chweched dosbarth. Y prif reswm dros hyn yw oherwydd bod y naid o'r cwrs byr TGAU i'r safon uwch atodol neu safon uwch yn rhy fawr i lawer o ddisgyblion. Mae hyn yn destun pryder oherwydd bod parhau i astudio'r Gymraeg ar y lefel hon yn helpu tuag at ddod yn gwbl rhugl. Yn 2006, dim ond tua 450 o ymgeiswyr a gafodd eu cofrestru ar gyfer yr arholiad safon uwch Cymraeg ail iaith, sy'n debyg i'r nifer ar gyfer Almaeneg a thua hanner y nifer ar gyfer Ffrangeg.

² Gweler Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2005-2006.

Faint o ddisgyblion sy'n dilyn y cwrs byr Cymraeg ail iaith?


- 20 Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y mathau gwahanol o arholiadau mewn Cymraeg rhwng 2004 a 2006:

Blwyddyn	Maint y garfan	Canran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer:					
		Cymraeg iaith 1 ^{af}	Cymraeg 2 ^{il} iaith: cwrs llawn	Cymraeg 2 ^{il} iaith: cwrs byr	Tystysgrif lefel mynediad: Cymraeg iaith 1 ^{af}	Tystysgrif lefel mynediad: Cymraeg 2 ^{il} iaith	% y garfan gyfan a gofrestrwyd ar gyfer arholiad yn Gymraeg
2004	39187	12.8	30.1	20.2 ³	0.7	1.6	65.8
2005	38482	13.2	25.4	22.8	0.7	1.3	63.3
2006	38744	13.4	24.5	25.3	0.8	1.2	65.2

Ffynhonnell: Cronfa ddata Arholiadau Cymru CBAC

- 21 Dengys y tabl mai dim ond tua dau o bob tri disgybl 15 oed sy'n cael eu cofrestru ar gyfer arholiad yn Gymraeg. Mae hyn yn cymharu â thros 90% mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- 22 Bu gostyngiad hefyd yng nghyfran y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiad y cwrs TGAU llawn mewn Cymraeg ail iaith a chynnydd cyfatebol yn y rheiny a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr dros y cyfnod tair blynedd rhwng 2004 a 2006.
- 23 Mae'r siart canlynol yn dangos niferoedd y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau'r cwrs llawn a'r cwrs byr mewn TGAU Cymraeg ail iaith dros yr un cyfnod:

Siart 3: Niferoedd yr ymgeiswyr Cymraeg ail iaith TGAU cwrs llawn a chwrs byr rhwng 2004 a 2006




- 24 Mae'r siart yn dangos gostyngiad dros y cyfnod 2004-2006 o dros 2,500 yn nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs llawn, o ryw 12,000 yn 2004 i ychydig dros 9,500 yn 2006. Yn 2006, am y tro cyntaf, roedd nifer y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer y cwrs byr yn uwch na'r nifer ar y cwrs llawn.

³ Pan gyhoeddwyd y data hwn yn wreiddiol, dyfynnwyd y ffigur hwn yn anghywir fel 9.8%.

- 25 Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy, mae disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn dilyn y cwrs llawn, gyda rhai eithriadau yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu polisïau iaith yr awdurdodau lleol a'r ysgolion hyn. Ledled gweddill Cymru, mae'r niferoedd sy'n dilyn y cwrs llawn yn amrywio yn fawr. Nid yw'r amrywiad hwn yn adlewyrchu natur ieithyddol yr ysgolion na'r ardaloedd y maent yn eu gwasanaethu. Mae rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn gwasanaethu ardaloedd lle nad oes yna unrhyw gymunedau Cymraeg, lle mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn y cwrs TGAU llawn, er enghraifft, Ysgol Gyfun Croesyceiliog, Cwmbrân. Mewn ysgolion o'r fath, ni chynigir y cwrs byr i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Nid yw'n ymddangos bod disgyblion a rhieni yn gwrthwynebu'r polisïau hyn.
- 26 Rhwng 2004 a 2005, roedd cynnydd sylweddol at ei gilydd yng nghyfran y disgyblion sy'n dilyn y cwrs byr. Roedd y tueddiad hwn ar ei amlycaf mewn awdurdodau fel Caerdydd a Chasnewydd, ac i raddau llai mewn awdurdodau eraill yn ne ddwyrain Cymru a rhannau eraill o Gymru.
- 27 Mae'r siart canlynol yn dangos graddfa'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion sy'n dilyn y cwrs TGAU llawn mewn tair ysgol uwchradd sy'n nodweddiadol o'r rheiny mewn ardaloedd dinesig yn ne ddwyrain Cymru.

Siart 4: Niferoedd y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn rhwng 2004 a 2006 mewn tair ysgol uwchradd yn un o'r awdurdodau yn ne ddwyrain Cymru




- 28 Mae'r siart yn dangos, rhwng yr ysgolion hyn, bod bron i 400 yn llai o ddisgyblion yn dilyn y cwrs llawn yn 2006 nag yn 2004, sy'n ostyngiad o ryw 80% dros y tair blynedd. Ailadroddir y patrwm hwn mewn nifer o ysgolion tebyg eraill.
- 29 Ceir prinder athrawon arbenigol i addysgu Cymraeg mewn ysgolion mewn rhannau penodol o Gymru. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgolion hyn i gynnig y cwrs llawn oherwydd bod angen dyrannu mwy o amser i addysgu'r cwrs llawn. Mewn gormod o ysgolion, addysgir y cwrs byr gan athrawon nad ydynt yn arbenigol nad oes ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o fethodoleg addysgu ail iaith.
- 30 Mewn rhai ysgolion, y rheswm am y gostyngiad hwn yn nifer y disgyblion sy'n dilyn y cwrs llawn yw bod yr ysgol bellach ond yn cynnig y cwrs llawn i gyfran fechan o ddisgyblion. Lle bydd hyn yn digwydd, nid yw'r ysgol yn rhoi cyfle cyfartal i bob

disgybl. Yn aml, pan fydd y dewis yn agored i bob disgybl, nid yw'r ysgol yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ddeall neu ystyried manteision dilyn y cwrs llawn.

- 31 Mae rhai ysgolion, lle mae'r cwrs llawn a'r cwrs byr yn ddewisiadau, wedi llwyddo i gynyddu'r niferoedd sy'n dilyn y cwrs llawn. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith fod ganddynt strategaeth glir i godi ymwybyddiaeth disgyblion a rhieni o fanteision cynyddu eu horiau cyswllt â'r Gymraeg. Yn yr ysgolion hyn, mae rhoi cyngor priodol i ddisgyblion a'u rhieni pan fyddant yn dewis astudio dewisiadau pwnc ar ddiwedd Blwyddyn 9 wedi cael effaith gadarnhaol ar niferoedd y disgyblion sy'n dewis astudio'r cwrs TGAU llawn yng nghyfnod allweddol 4.
- 32 Mae'r siartiau canlynol yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cwrs llawn a'r cwrs byr o ran nifer yr ymgeiswyr TGAU Cymraeg ail iaith a safodd arholiadau haen uwch yn 2006.


Siartiau 5 a 6: Niferoedd y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer yr haen uwch a'r haen is mewn arholiadau TGAU Cymraeg ail iaith yn 2006



- 33 Yn 2006, cofrestrwyd 4,733 o ddisgyblion a oedd yn dilyn y cwrs llawn a 1,788 o ddisgyblion a oedd yn dilyn y cwrs byr ar gyfer yr haen uwch. Dengys y siartiau fod tua hanner y disgyblion a oedd yn dilyn y cwrs llawn wedi cael eu cofrestru ar gyfer yr haen uwch. Fodd bynnag, ar y cwrs byr, dim ond tua un o bob pum disgybl wnaeth hynny, er bod llawer o ddisgyblion galluog bellach yn dilyn y cwrs byr. Felly, nid oedd pedwar o bob pum disgybl ar y cwrs byr yn gallu cael gradd yn uwch na gradd C. Roedd y sefyllfa'n debyg yn 2005.

- 34 Mae'r siartiau canlynol yn dangos ymgeiswyr ar gyfer yr haenau uwch ac is yn yr un tair ysgol y cyfeiriwyd atynt uchod.

Siartiau 7, 8 a 9: Niferoedd y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU Cymraeg ail iaith haen uwch ac is mewn tair ysgol uwchradd yn un o'r awdurdodau yn ne ddwyrain Cymru yn 2006



- 35 Yn 2006, yn y tair ysgol hyn, cofrestrwyd mwyafrif helaeth y disgyblion ar gyfer yr haen is. Cofrestrir llai na thraean o'r holl ddisgyblion ar gyfer yr haen uwch naill ai yn y cwrs byr neu'r cwrs llawn. Mae'r ffigur mor isel ag un disgybl o bob pum disgybl yn Ysgol C. Yn yr ysgol hon, ni chafodd unrhyw ddisgyblion a oedd yn dilyn y cwrs byr eu cofrestru ar gyfer yr haen uwch. Mewn ysgol fel y rhain, mae cyfran uchel o ddisgyblion yn tangyflawni mewn Cymraeg ail iaith o gymharu â phynciau eraill y maent yn eu hastudio. Mewn un o'r tair ysgol, ni chafodd bron i 40% o'r disgyblion a oedd yn dilyn y cwrs byr eu cofrestru ar gyfer yr arholiad, ac felly nid oes ganddynt unrhyw gymhwyster TGAU mewn Cymraeg.

Faint o amser sydd ar gyfer addysgu'r cwrs byr Cymraeg ail iaith?

- 36 Mae manylebau'r bwrdd arholi yn argymhell y dylid dyrannu dwy awr a hanner bob pythefnos ar gyfer cyflwyno'r cwrs byr. Dim ond nifer fach o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg (tua 15%) sy'n rhoi'r dyraniad hwn. Mewn rhai ysgolion, rhoddir llai nag awr bob pythefnos.
- 37 Mae dyraniadau amser mor gyfyngedig yn ei gwneud yn anodd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion wneud cynnydd da wrth ddysgu Cymraeg. Nid oes digon o amser i ymdrin â'r holl fedrau iaith. Yn aml, mae'r amser i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu yn gyfyngedig a chaiff hyn effaith andwyol ar ddatblygu medrau llafar disgyblion, oherwydd caiff medrau llafar eu hatgyfnerthu gan ddatblygiad medrau darllen ac ysgrifennu. Mewn ysgolion lle nad oes gan ddisgyblion unrhyw brofiad o'r Gymraeg ar wahân i'r profiad yn eu gwersi Cymraeg, mae'n anodd iddynt gofio'r hyn y maent wedi'i ddysgu mewn gwersi blaenorol. Bydd disgyblion yn aml yn mynd yn rhwystredig oherwydd bod eu cynnydd wedi'i gyfyngu oherwydd amser annigonol. Gall hyn gael effaith andwyol ar gymhelliant disgyblion.
- 38 Yn aml, dyrennir awr yr wythnos ar gyfer y cwrs (dwy awr bob pythefnos). Er bod awr yr wythnos dim ond pymtheg munud yn llai na'r dyraniad amser a argymhellir, mae hyn yn parhau'n gyfystyr ag 20% o ostyngiad yng nghyfanswm yr amser a ddyrennir ac yn cyfrif am ostyngiad o bron i 10 awr o astudio dros y flwyddyn gyfan.
- 39 Mae rhai ysgolion yn arbrofi â gwahanol fodelau o ddarparu'r cwrs byr. Yn hytrach na darparu'r un dyraniad amser wythnosol trwy gydol y flwyddyn, mae'r ysgolion hyn yn cyflwyno Cymraeg ail iaith trwy fodiwlau dwys ar ddechrau a diwedd y flwyddyn ysgol, gyda chyfanswm nifer yr oriau addysgu'r un fath drwy gydol y flwyddyn. Gall darpariaeth ddwys helpu disgyblion i wneud cynnydd cyflym. Fodd bynnag, mae dysgu iaith yn llwyddiannus yn dibynnu ar gyswllt cyson a pharhaus â'r iaith darged. Yn gyffredinol, nid yw'r ysgolion wedi rhoi digon o ystyriaeth i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfnod rhwng modiwlau. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd, ac mewn rhai achosion, ni chânt eu cofrestru ar gyfer yr arholiad TGAU.
- 40 I ymateb i'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis y cwrs llawn, mae rhai ysgolion yn darparu cwrs carlam ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 9, gyda'r bwriad o'u cofrestru ar gyfer y cwrs llawn ar ddiwedd Blwyddyn 10. Manteision y model hwn yw:
- mwy o hyblygrwydd yn amserlen Blwyddyn 9 sy'n golygu bod modd dyrannu amser ychwanegol ar gyfer cyrsiau Cymraeg ail iaith;
 - mae cynnydd cyflym yng nghyflawniad disgyblion yn cynyddu eu cymhelliant; a'r
 - cyfle i ddisgyblion fynd yn eu blaenau i'r cwrs uwch atodol (UA) ym Mlwyddyn 11.

- 41 Mae dechrau'r cwrs uwch atodol yng nghyfnod allweddol 4 yn sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu disgyblion. Gall hefyd olygu bod cyfran uwch o ddisgyblion yn dilyn y cwrs uwch atodol ac yn gwella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Lle nad oes yna unrhyw gyrsiau uwch atodol ar gael ym Mlwyddyn 11, collir rhai o fanteision y cwrs carlam. Mae un ysgol wedi rhoi cwrs carlam ar brawf lle mae disgyblion yn sefyll y cwrs byr ar ddiwedd Blwyddyn 9, gyda'r bwriad o ddenu mwy o ddisgyblion i ddilyn y cwrs llawn ym Mlwyddyn 10. Nid oedd y peilot hwn yn llwyddiannus yn bennaf oherwydd bod y disgyblion yn fodlon ag ennill gradd C mewn TGAU Cymraeg ail iaith ac nad oeddent yn dymuno parhau i astudio Cymraeg.
- 42 Mewn llawer o ysgolion sy'n addysgu Cymraeg yn bennaf fel ail iaith, mae cyswllt disgyblion â'r Gymraeg y tu hwnt i'w gwersi Cymraeg yn gyfyngedig. Mewn llawer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, nifer fach o staff, os o gwbl, sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae diffyg cyswllt ehangach â'r Gymraeg yn rhwystro cynnydd disgyblion a'u hyder, yn enwedig lle ceir dyraniad amser cyfyngedig eisoes ar gyfer y cyrsiau byr. Prin yw'r enghreifftiau o gyswllt rheolaidd â'r iaith y tu hwnt i wersi Cymraeg. Mae rhai ysgolion yn trefnu arosiadau preswyl ar gyfer disgyblion yng nghampws yr Urdd.
- 43 Ceir mentrau effeithiol sy'n dod ag oedolion sy'n dod â dysgwyr Cymraeg i gyswllt â siaradwyr Cymraeg. Enghraifft o hyn yw'r Cynllun Pontio yn ardal Aberystwyth, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd i sgwrsio â dysgwyr. Byddai efelychu prosiectau fel hwn, gyda chymorth y Mentrau Iaith⁴ yn helpu i wella cyflawniadau Cymraeg ail iaith disgyblion yng nghyfnod allweddol 4.

⁴ Asiantaethau yn y gymuned yw Mentrau Iaith, a sefydlwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mhob awdurdod lleol. Eu swyddogaeth yw ymestyn ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, busnes a sefydliadol yn y gymuned.

Beth yw'r maes llafur arholi ar gyfer y cwrs byr Cymraeg ail iaith?

- 44 Mae'r manylebau TGAU newydd arfaethedig ar gyfer Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 yn cynnig dau lwybr 'Cymraeg Fyw' a 'Chymraeg Ymarferol' ar gyfer y cwrs TGAU byr a llawn. Mae'r manylebau newydd yn gwneud y cyrsiau TGAU Cymraeg ail iaith yn fwy perthnasol i gyd-destunau cyfoes, sy'n cysylltu'r Gymraeg â defnydd cyffredinol bob dydd a sefyllfaoedd galwedigaethol. Mae'r manylebau newydd yn ceisio:
- datblygu diddordeb disgyblion yn y Gymraeg a'u brwdfrydedd tuag at yr iaith;
 - galluogi disgyblion i gyfathrebu'n hyderus ac yn effeithiol yn Gymraeg;
 - datblygu medrau disgyblion er mwyn iddynt fodloni eu hanghenion eu hunain ac anghenion cyflogwyr ac addysg bellach;
 - galluogi disgyblion i gaffael y medrau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn llawn mewn cymuned ddwyieithog; a
 - galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sydd eu hangen ar gyfer astudio ymhellach.
- 45 Mae'r llwybr 'Cymraeg Fyw' yn canolbwyntio ar gyd-destunau sy'n ymwneud â themâu 'Ni' ac 'Iaith bob dydd'. Mae profiadau dysgu disgyblion sy'n dilyn y llwybr 'Cymraeg Ymarferol' yn seiliedig ar 'Y byd o'n cwmpas' a 'Byd gwaith'. Mae'r themâu hyn yn rhoi cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu defnyddio'r Gymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd lle maent yn debygol o ddod i gyswllt â'r Gymraeg.
- 46 Mae gan yr agweddau uchod ar y meysydd llafur newydd y potensial i wneud dysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 yn fwy deniadol i ddisgyblion. Mae adroddiad cynnydd y bwrdd arholi o fis Chwefror 2007 yn dangos bod y manylebau wedi cael eu croesawu gan yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot. Roedd hwn yn cael ei gefnogi gan y cyfweliadau a gawsom gyda phenaethiaid adrannau Cymraeg.
- 47 Er hynny, mae'r dyraniad amser a argymhellir o ddwy awr a hanner bob pythefnos ar gyfer y cwrs byr yn parhau i gymharu'n anffafriol â'r oriau cyswllt wythnosol mewn cyrsiau Cymraeg dwys ar gyfer oedolion. Mae angen tua phedair awr yr wythnos o amser cyswllt ar ddysgwyr (gan gynnwys cyswllt ffurfiol ac anffurfiol) i ddod yn rhugl mewn iaith.

Casgliad

- 48 Mae diffygion sylfaenol mewn cyflwyno Cymraeg fel ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth gyflwyno'r cwrs byr yn benodol. Mae'r diffygion hyn yn rhwystro rhag bodloni'r targed yn Iaith Pawb o gynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg o bum pwynt canran erbyn 2011 o ffigur 2001.

Atodiad

Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw

- 1 Ysgol Uwchradd Dinbych
- 2 Ysgol Uwchradd Argoed
- 3 Ysgol Uwchradd Llanisien
- 4 Ysgol Uwchradd Cyfarthfa
- 5 Ysgol Gyfun Brynteg
- 6 Ysgol Syr Thomas Picton
- 7 Ysgol Sant Julian, Casnewydd
- 8 Ysgol Uwchradd y Bont-faen
- 9 Ysgol Gyfun Hartridge
- 10 Ysgol Gyfun Dŵr y Felin
- 11 Ysgol Uwchradd Pencoed
- 12 Ysgol Gyfun Treorci
- 13 Ysgol Uwchradd Cwmcarn
- 14 Ysgol Gyfun Croesyceiliog
- 15 Ysgol Gyfun Caerllion
- 16 Ysgol Gyfun Cil-y-coed
- 17 Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd